

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 3 Hydref 2016 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig

Presennol:

Cyng. Ann Stokoe (*Cadeirydd*)
Cyng. Dilwyn Jenkins
Cyng. Islwyn Iago
Cyng. Auriol Williams

Cyng. Llinos Price (*Is-Gadeirydd*)
Cyng. Des Davies
Cyng. Morris Davies
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Ann Stokoe, bawb i gyfarfod mis Hydref, ac aethpwyd ymlaen i drafod yr agenda.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyngorwyr Lyn Jones, Eurig Lloyd, Haydn Lewis
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod cofnodion mis Medi yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Des Davies (Rhif 6: Cais am gymorth ariannol "Y Gambo").
- 5. Materion yn codi:**
 - (a) Gweithredoedd ac Ymddiriedolwyr Ystafell Berkley:** Gofynnodd y gyfreithwraig, Mrs Llio Phillips, i'r Cyngor drefnu cyfarfod i drafod y gweithredoedd ymhellach. Cysylltodd y Clerc gyda'r Cyng. Huw Jones; cytunodd yntau drefnu'r cyfarfod. Cytunodd y Cyng. Dilwyn Jenkins gysylltu â'r Cyng. Jones i drafod y mater ymhellach.
 - (b) Cyfarfod Cyngor Tref Aberteifi gyda Chomisiynydd Trosedd a Heddlu Dyfed-Powys:** Mae'r cyfarfod i'w gynnal yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre ar 1 Tachwedd am 6.00yh. Cytunwyd bod dau gynrychiolydd i fynychu'r cyfarfod.

6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

	Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Tachwedd 2016
	PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	£150
	Ysgol Feithrin Penyparc	£100
	Papur Bro "Y Gambo"	£75
	Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc	£50
	Shelter Cymru	Dim
	Elusen Amaethyddol, "Royal Agricultural Benevolent Institution"	£100
	Age Cymru Ceredigion	£50
	Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion	£50

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

7. Cynllunio

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau'r Cyngor
A160808	Land at Towyn Farm, Gwbert "Revised scheme providing three dwellings in lieu of the five approved under reference D1/709/92"	Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad

Anfonwyd y sylwadau uchod at y Cyngor Sir ar 21 Medi

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau'r Cyngor
A160884	Pant-y-dŵr, Penyparc "Variation of condition 4 of planning permission A041225 to use the granny annex for holiday accommodation"	Nid oedd gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad